# Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2022-2023

## Ardal fforwm derbyn: Pen-y-bont ar Ogwr

**Ysgrifennydd y Fforwm:** Emma Giles **Manylion cyswllt: e-bost: Emma.Giles@bridgend.gov.uk**

### Aelodaeth graidd o'r fforwm a'u presenoldeb

| Enw | Swydd | Cyfnod y bu'n gwasanaethu fel aelod o'r Fforwm a 1 Medi 2022* | Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod) |
|---|---|---|---|
| 1. Mr R Davies | **Cadeirydd**<br>Rheolwr Grŵp (Cymorth Busnes)<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 8 mlynedd<br>(Ailbenodwyd 2019) | LA |
| 2. Mr J Tarran | **Is-gadeirydd**<br>Pennaeth<br>Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru | 9 mlynedd<br>(Ailbenodwyd 2019) | S/VA |
| 3. Mrs D Davies | **Ysgrifennydd**<br>Prif Swyddog – Strategaeth Fusnes a Pherfformiad<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 5 mlynedd | LA |
| 4. Y Cyng J-P Blundell | Aelod Cabinet - Addysg | 0<br>(aelod newydd 1 Medi 2022) | LA |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Ms R Garner | Arweinydd ADY (anghenion dysgu ychwanegol) Blynyddoed Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a NMMC (nam meddygol a modur cymhleth)<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 1 blynedd | LA |
| 6. Ms Beth Davies | Rheolwr Gofal Plant<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 1 blynedd | LA |
| 7. Mr A Slade | Pennaeth<br>Ysgol Gyfun Porthcawl | 5 mlynedd<br>(Daeth yr aelodaeth i ben 31 Rhagfyr 2022) | S/CV |
| 8. Mr R Pawar | Pennaeth<br>Ysgol Gyfun Bryntirion | 0<br>(aelod newydd o 1 Chwefror 2023) | S/CV |
| 9. Mrs K John | Pennaeth<br>Ysgol Gynradd Bracla | 5 mlynedd<br>(Ailbenodwyd 2021) | S/CV |
| 10. Mrs C Coulthard | Pennaeth<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd | 0<br>(aelod newydd o 1 Medi 2022) | S/CV |
| 11. Mr A Howells | Pennaeth<br>Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath | 0<br>(aelod newydd o 1 Chwefror 2023) | S/VA |
| 12. Ms A Robertson | Cyfarwyddwr Ysgolion Archesgobaeth Caerdydd | 0<br>(aelod newydd o 1 Medi 2022) | RC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. Ms R Morteo | Arweinydd Gweithredol Addysg Esgobaeth Llandaf | 0<br>(aelod newydd o 1 Medi 2022) | CIW |
| 14. Ms R Owens | Rhiant lywodraethwr<br>Ysgol Heronsbridge | 0<br>(aelod newydd o 1 Ebrill 2023) | PG |
| 15. Ms C Bloomfield | Rhiant lywodraethwr<br>Coleg Cymunedol Y Dderwen | 0<br>(aelod newydd o 1 Ebrill 2023) | PG |
| 16. Mr W Bond | Llywodraethwr cymunedol<br>Ysgol Heronsbridge | 14 mlynedd<br>(12 mlynedd yng nghategori aelodaeth LA; 2 flynedd yn y categori aelodaeth L/COM)<br>(Ailbenodwyd Medi 2020)<br>(Daeth yr aelodaeth i ben 9 Ionawr 2023) | L/COM |
| 17. Mr S Sweeney | Llywodraethwr cymunedol<br>Ysgol Gynradd Tremain | 0<br>(aelod newydd o 1 Ebrill 2023) | L/COM |
| 18. Mrs M Treharne | Cydlynydd Ymgysylltu Addysg<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 0<br>(aelod newydd o 1 Medi 2022) | Aelod ychwanegol (aelod heb bleidlais) |
| 19. Ms C Christy | Swyddog Derbyn i Ysgolion<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 0<br>(aelod newydd o 1 Medi 2022) | Aelod ychwanegol (aelod heb bleidlais) |

***Os yw aelod wedi gwasanaethu am 4 blynedd neu fwy, nodwch ddyddiad ei ailethol.**

| Acronymau ar gyfer aelodau craidd | | |
|---|---|---|
| **Aelodau wedi eu henwebu gan** | **Aelodau craidd** | **Acronym** |
| ALl – unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod | 1 i 5 | **LA, LA/SEN, LA/LAC** |
| Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru | 1 i 3 | **CIW** |
| Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys Gatholig | 1 i 3 | **RC** |
| Ysgolion – cymunedol a gwirfoddol a reolir | 1 i 3 | **S/CV** |
| Ysgolion - sefydledig | 1 i 3 | **S/F** |
| Ysgolion – gwirfoddol a gynorthwyir | 1 i 3 | **S/VA** |
| Cynrychiolwyr rheini/ llywodraethwyr | 1 i 3 | **PG** |
| Cynrychiolwyr y gymuned leol | Hyd at 3 | **L/COM** |

**Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb** (Sylwch nad oes unrhyw beth yn Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn (Cymru) 2003[1] sy'n atal rhai neu bob aelod rhag cymryd rhan yn rhithiol). Mae rheoliad 9 o Reoliadau 2003 yn darparu y gall aelodau craidd reoleiddio eu gweithdrefn eu hunain yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau hynny).

| | **Dyddiad** | **Nifer aelodau'r Fforwm a oedd yn bresennol – yn ôl categori** |
|---|---|---|
| **Y cyfarfod cyntaf** | 27 Medi 2022 | **11**<br>5 x LA; 1 x S/VA; 2 x S/CV; 1 x L/COM, 1 x RC, 1 x CIW |
| **Yr ail gyfarfod** | 10 Ionawr 2023 | **11**<br>5 x LA; 1 x S/VA; 2 x S/CV; 1 x L/COM, 1 x RC, 1 x CIW |
| **Y trydydd cyfarfod** | Amherthnasol | |

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2003/2962/contents/made/welsh

| **A ydy eich awdurdod wedi sefydlu fforwm ar y cyd ag awdurdod lleol cyfagos?**<br><br>**Os felly, a wnewch chi ddarparu manylion yr awdurdod dan sylw a pha mor llwyddiannus y bu hyn.** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **A fyddech cystal â chadarnhau a yw awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a'r broses ar gyfer penderfynu ar drefniadau derbyn, yn unol â'r amserlenni sy'n ofynnol o dan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006[2] [gan gynnwys cynnal ymgynghoriad ar y trefniadau[3] erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu, a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn honno].**<br><br>**Os oes unrhyw awdurdod derbyn nad yw wedi cadw at yr amserlenni, rhowch y manylion yma.**<br><br>**Faint o ddogfennau ymgynghori gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill) ydych chi wedi eu gweld?** |
|---|
| Rhaid ymgynghori ynghylch trefniadau derbyn ar gyfer y 'flwyddyn benderfynu', gan ddechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol ynddi. Felly, ym mlwyddyn academaidd 2022-2023, roedd trefniadau'n cael eu penderfynu ar gyfer blwyddyn ysgol 2024-2025.<br><br>Cwblhaodd yr holl awdurdodau derbyn o fewn Pen-y-bont ar Ogwr yr ymgynghoriad a phenderfynu ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2024-2025 o fewn y cyfnodau amser gofynnol dan y Rheoliadau.<br><br>Dogfennau ymgynghori a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol oddi wrth awdurdodau derbyn y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr nad ydynt yn awdurdodau lleol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg. |

| **Pa drefniadau derbyn sydd ar waith i ddiogelu buddiannau plant sy'n agored i niwed?** |
|---|

[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/174/contents/made/welsh
[3] Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar drefniadau chweched dosbarth ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth, y dylid ei gynnal ar yr un pryd.

**A yw’r trefniadau hynny wedi bod yn llwyddiannus?**

**Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gefnogi’r plant hyn?**

Mae’r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol mewn perthynas â’r ysgolion hynny y mae’n awdurdod derbyn ar eu cyfer.

Mae proses dderbyn ganolog yr awdurdod lleol yn caniatáu mwy o reolaeth a monitro ar dderbyn plant sy’n agored i niwed.

Ar gyfer rowndiau derbyn a derbyniadau/trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a broseswyd yn ystod blwyddyn ysgol 2022-2023, roedd plant sy’n derbyn gofal neu blant a oedd yn arfer derbyn gofal yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer derbyniad i’r ysgol o ddewis rhiant corfforaethol/rhiant/gofalwr. Swyddogion yn y Gwasanaethau Disgyblion yn agos gyda'r Tîm Ymgysylltu ag Addysg i sicrhau bod disgyblion o'r fath yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth briodol.

Derbyniwyd pob plentyn â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun datblygu unigol (CDU) a gynhelir gan yr awdurdod lleol i'r lleoliad a enwir ar y datganiad terfynol/CDU. Cafodd pob cais mewn perthynas â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol ond heb ddatganiad o AAA neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol ei ystyried yn yr un modd â phob cais arall ar sail y gweithdrefnau a'r meini prawf derbyn a nodir yn y Polisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023.

Ni wnaeth yr awdurdod lleol wrthod derbyn plentyn ar sail ei ymddygiad. (Mae hyn yn cynnwys plant yr ystyrir y gallent fod yn aflonyddgar, sy’n arddangos ymddygiad heriol neu a allai fod angen asesiad ar gyfer anghenion addysgol arbennig.) Ystyriodd y Panel Mynediad Teg Prif Ffrwd atgyfeiriadau ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed ac anodd eu lleoli.

Diben y Panel Mynediad Teg at y Brif Ffrwd yw ystyried yr achosion unigol mwyaf cymhleth sy'n ymwneud â derbyn plant i leoedd prif ffrwd, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu lleoli’n deg, mewn ysgolion sy’n gallu diwallu eu hanghenion, gan leihau effeithiau negyddol ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg gymaint â phosibl yn achos y dysgwr a'r darparwr.

Gallai'r broses o ystyried achos unigol gan y Panel Mynediad Teg at y Brif Ffrwd olygu cyfeirio at y Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu’r Panel Mynediad at Addysg. Mae gan y panelau hyn gylch gwaith ehangach o ran plant sy'n agored i niwed ac anodd eu lleoli, yn fwyaf arbennig y rhai y gall fod angen eu hystyried ar gyfer darpariaethau addysg arbenigol.

Mae meini prawf gordanysgrifio’r awdurdod lleol, sy’n gymwys mewn rowndiau derbyn, yn nodi blaenoriaeth gymharol ceisiadau mewn perthynas â phlant â chyflyrau meddygol neu seicolegol, neu amgylchiadau cymdeithasol penodol (fel gofalwyr ifanc). Cafodd ceisiadau

eu blaenoriaethu o dan y maen prawf lle darparwyd y dystiolaeth ofynnol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig (y rhesymau pam yr ystyriwyd mai'r ysgol a ffefrir yw'r ysgol fwyaf addas a'r anawsterau a fyddai'n codi pe bai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol arall) a'i dderbyn. Ar gyfer ceisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â phlant o'r fath lle nad oedd lle yng ngrŵp blwyddyn yr ysgol y gofynnwyd amdani, cymhwyswyd yr un gofynion tystiolaeth ac ystyriaethau i wneud penderfyniad terfynol ynghylch a fyddai lle yn cael ei gynnig yn yr ysgol y gofynnwyd amdani.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau mewn unrhyw gylch derbyn mewn perthynas â phlant a oedd yn bodloni'r maen prawf gordanysgrifio yn ymwneud â phlant aelod sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn y DU neu Was y Goron. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â phlant aelod sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn y DU neu Was y Goron.

Oddi ar fis Ebrill 2022, dechreuodd teuluoedd gyrraedd Cymru o Wcráin o dan drefniadau'r cynllun cenedlaethol. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth awdurdodau lleol fod y ddeddfwriaeth derbyn i ysgolion yng Nghymru, a adlewyrchir yng Nghod Derbyn i Ysgolion statudol 2013, ac y mae polisïau awdurdodau derbyn yn seiliedig arni, yn gwbl berthnasol i geisiadau derbyn mewn perthynas â phlant sy'n cyrraedd. Felly, ni fyddai gan geisiadau o'r fath statws eithriadol, a dylai awdurdodau derbyn brosesu'r ceisiadau a gwneud penderfyniadau yn eu cylch fel y byddent yn ei wneud yn achos pob cais arall am leoedd mewn ysgolion. (Mae'r un sefyllfa yn berthnasol yn achos plant sy'n cyrraedd Cymru o dan y ddau gynllun sefydledig i ffoaduriaid ar gyfer teuluoedd o Syria ac Affganistan, a hefyd y cynllun i deuluoedd o Hong Kong.) Roedd y penderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol ynghylch ceisiadau ar gyfer derbyniadau ysgol, ac ar gyfer cymhwysedd i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol, ar gyfer plant sy'n cyrraedd o Wcráin yn adlewyrchu'r sefyllfa hon.

Yn dilyn penderfyniad i dderbyn, roedd y cyfathrebu a wnaed â'r rhiant/gofalwr a'r ysgol ynghylch y trefniadau cychwyn yn adlewyrchu'r cyngor a roddwyd gan y Prif Swyddog Meddygol mewn perthynas â sgrinio iechyd o dan y llwybr cenedlaethol a sefydlwyd ar gyfer y teuluoedd sy'n cyrraedd Cymru.

Yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2023, cafodd yr awdurdod lleol 11 o geisiadau derbyn i ysgolion ar gyfer y flwyddyn honno mewn perthynas â phlant o Wcráin. O blith y rhain, roedd saith ohonynt yn ymwneud â dysgwyr oed cynradd (gan gynnwys meithrin), a phedwar yn ymwneud â dysgwyr oed uwchradd.

- Yn achos y saith o geisiadau yn ymwneud â dysgwyr oed cynradd, cymeradwywyd chwech ohonynt a derbyniwyd y dysgwyr hynny i'r ysgolion y gwnaed cais amdanynt. Roedd yr un cais oedd yn weddill yn ymwneud â Meithrinfa Ran-amser y bu rhaid ei wrthod am nad oedd lleoedd ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gwnaed cais amdani. Cynigiwyd ysgol arall ond gwrthododd y rhiant a gwnaeth drefniadau gwahanol.

- Yn achos y pedwar o geisiadau yn ymwneud â dysgwyr oed uwchradd, cymeradwywyd pedwar ohonynt a derbyniwyd y dysgwyr i'r ysgolion y gwnaed cais amdanynt.

Cafodd dau deulu ychwanegol o Afghanistan, sydd â phlant oed ysgol, eu hadsefydlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn ysgol 2021-2022. Cynigiwyd lleoedd i'r plant yn yr ysgolion y gwnaed cais amdanynt.

Ni chafodd unrhyw deuluoedd ychwanegol o Syria sydd â phlant oed ysgol eu hailsefydlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn ysgol 2022-2023.

Roedd penderfyniadau derbyn yr awdurdod lleol ar bob cais mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i Gylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 003/2008 (Symud Ymlaen – Addysg i Sipsiwn-Teithwyr) ac adrannau 3.25 a 3.26 o'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol ar gyfer Cymru, 2013.

**I ba raddau y mae’r gweithdrefnau cymeradwy ar gyfer derbyn yn ystod y flwyddyn wedi gweithio?**

**Faint o blant sydd wedi eu derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau hyn?**

**A ydych chi wedi nodi cynnydd yn nifer y plant sydd wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn, ac os felly pa gamau ydych wedi eu nodi er mwyn rhoi sylw i’r mater?**


**Mae’r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â cheisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn a wneir i’r awdurdod lleol mewn perthynas â’r ysgolion hynny y mae’n awdurdod derbyn ar eu cyfer.**

Yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion cyhoeddedig yr awdurdod lleol, cafodd yr holl geisiadau derbyn/trosglwyddo yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd yn ystod blwyddyn ysgol 2022-2023 eu hystyried yn nhrefn y dyddiad derbyn ac yn erbyn nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol y gofynnwyd amdani a’r strwythurau a’r niferoedd dosbarth presennol. Ystyriwyd amgylchiadau penodol y plentyn a’r teulu, os yn briodol. Roedd y lle’n cael ei gynnig os oedd yna le ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gofynnwyd amdani. Os nad oedd lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol yn yr ysgol y gofynnwyd amdani, gwrthodwyd y cais a rhoddodd yr awdurdod lleol wybod i ymgeisydd/ymgeiswyr am yr ysgol agosaf nesaf gyda lle ar gael yn y grŵp blwyddyn perthnasol a’r hawl i apelio (ar gyfer ceisiadau mewn perthynas ag addysg oedran statudol).

**Ceisiadau derbyn/trosglwyddo prif ffrwd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â <u>phlant oed cynradd, gan gynnwys meithrin</u>**

- Manylir ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant oed cynradd (yn cynnwys meithrin) yn Ffigwr 1. Dros y bum mlynedd flaenorol o 2017 i 2022, roedd tuedd cynyddol bychan yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, gyda nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2022-2023 yn debycach i’r rheiny ar gyfer 2017-2018.

Ffigwr 1





- O blith yr 730 o geisiadau a ddaeth i law yn 2022-2023:
  - Tynnwyd 50 (6.9%) ohonynt yn ôl cyn i'r awdurdod lleol symud yn ei flaen i wneud penderfyniad. Ym mwyafrif yr achosion, roedd hyn oherwydd bod y cais wedi'i gyflwyno'n rhy gynnar, yn unol â'r polisi, o ystyried y dyddiad derbyn y gwnaed cais amdano; bod y cais wedi'i gyflwyno mewn camgymeriad, neu fod y cais wedi'i dynnu'n ôl am fod y plentyn wedi'i dderbyn i ddarpariaeth arbenigol.
  - Cymeradwywyd 568 (77.8%) i'w derbyn i'r ysgol y gwnaed cais amdani.
  - Gwrthodwyd derbyn 73 (10%) i'r ysgolion y gwnaed cais amdanynt, oherwydd bod yna ormod o alw am leoedd yn y grwpiau blwyddyn y gofynnwyd amdanynt.
  - Gwrthodwyd 39 (5.3%) oherwydd byddai eu derbyn yn arwain at dorri rheolau mewn perthynas â maint dosbarth babanod.
  - Yn achos y 112 o geisiadau y bu'n rhaid eu gwrthod, cynigiwyd ysgol arall mewn perthynas â 82 ohonynt. Yn achos y gweddill, ni chynigiwyd ysgol arall naill ai am fod y dysgwr eisoes yn mynd i'r ysgol amgen agosaf, neu am fod y rhiant/gofalwr wedi rhoi gwybod na fyddai unrhyw ysgol arall yn cael ei hystyried.

- Yn 2022-2023, rhoddodd yr awdurdod lleol wybod fod yna leoedd gwag mewn ysgolion cynradd, o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6, sef 14.63% o'r capasiti.

**Ceisiadau derbyn/trosglwyddo prif ffrwd yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion oed uwchradd, Blynyddoedd 7 i 11**

- Manylir ar nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion oed uwchradd (Blwyddyn 7 i  Blwyddyn 11) yn Ffigwr 2. Roedd cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2023-2023 o gymharu â 2021-2022. Dros y chwe blwyddyn o 2017 i 2023, roedd tuedd cynyddol bychan yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd.

Ffigwr 2




- O blith y 253 o geisiadau a ddaeth i law yn 2022-2023:
  - Tynnwyd 15 (4.3%) ohonynt yn ôl cyn i'r awdurdod lleol symud yn ei flaen i wneud penderfyniad. Ym mwyafrif yr achosion, roedd hyn oherwydd bod y cais wedi’i dynnu’n ôl am fod y plentyn wedi’i dderbyn i ddarpariaeth arbenigol.
  - Cymeradwywyd 295 (83.6%) i'w derbyn i'r ysgol y gwnaed cais amdani.
  - Gwrthodwyd derbyn 36 (10.2%) i'r ysgolion y gwnaed cais amdanynt, oherwydd bod yna ormod o alw am leoedd yn y grwpiau blwyddyn y gofynnwyd amdanynt.

- Atgyfeiriwyd 2 (0.6%) at y Panel Mynediad Teg at y Brif Ffrwd, ac wedi hynny at y Panel Mynediad at Addysg i ystyried darpariaethau arbenigol.
- Yn achos y 36 o geisiadau y bu’n rhaid eu gwrthod, cynigiwyd ysgol arall mewn perthynas â 17 ohonynt. Yn achos y gweddill, ni chynigiwyd ysgol arall naill ai am fod y dysgwr eisoes yn mynd i'r ysgol amgen agosaf, neu am fod y rhiant/gofalwr wedi rhoi gwybod na fyddai unrhyw ysgol arall yn cael ei hystyried.

- Yn 2022-2023, rhoddodd yr awdurdod lleol wybod fod yna leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd, o Flwyddyn 7 hyd at Flwyddyn 13, sef 17% o'r capasiti.

| Rhowch grynodeb o’r prif broblemau derbyn sydd wedi eu nodi ar gyfer yr ardal, a sut mae’r fforwm wedi mynd ati i’w datrys. |
| --- |
| **Mae’r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â threfniadau derbyn yr awdurdod lleol mewn perthynas â’r ysgolion hynny y mae’n awdurdod derbyn ar eu cyfer.**<br><br>• **Safoni rowndiau derbyn.**<br>Nododd y fforwm fod safoni'r holl gylchoedd derbyn ar agor am 14 wythnos yn gyffredinol, ar wahân i rownd Derbyn Rhan-Amser y Feithrinfa, fyddai'n parhau i fod ar agor am 8 mis yn gyffredinol. Nodwyd bod newidiadau wedi bod i eiriad rhai adrannau o Bolisi Derbyn i Ysgolion 2024-2025 i adlewyrchu’r cynnydd yn nifer yr ysgolion y gall rhiant fynegi dewis o’u plith, ar adeg gwneud y cais, i dair ar gyfer y rowndiau derbyn i’r Feithrinfa Ran-amser, y Feithrinfa Lawn Amser a’r Dosbarth Derbyn.<br><br>• **Nifer y lleoedd Meithrin Rhan-amser sydd ar gael mewn ysgolion**.<br>Nododd y fforwm fod amrywiad o flwyddyn i flwyddyn yn anochel o ystyried y ffactorau sy'n pennu nifer lleoedd o'r fath a bod hyn yn cael ei esbonio bob blwyddyn yn y Polisi Derbyn i Ysgolion. Nododd y fforwm, os na fydd lleoedd Meithrin Rhan-amser ar gael mewn ysgol, ond bod y nifer yn y Feithrinfa Lawn Amser yn isel, y bydd yr awdurdod lleol yn ymgynghori â’r ysgol i weld a yw’n briodol trosi rhai o’r lleoedd yn y Feithrinfa Lawn Amser sydd heb eu llenwi yn lleoedd Meithrin Rhan-amser, am y flwyddyn honno. Ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.<br><br>• **Gordanysgrifio ar gyfer lleoedd Blwyddyn 7 ar gyfer Medi 2023 yn Ysgol Gyfun Bryntirion**.<br>Nododd y fforwm fod lleoedd yn Ysgol Gyfun Bryntirion, unwaith eto, wedi cael eu gordanysgrifio, gan ddangos y pwysau parhaus am leoedd yn yr ardal ddaearyddol hon. Roedd gwybodaeth am y camau gweithredu oedd naill ai ar y gweill neu yn cael eu hystyried mewn perthynas â chynyddu capasiti yn hysbys i’r cyhoedd ac ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach. |

- **Ceisiadau ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg dewis cyntaf gydag ysgolion cyfrwng Saesneg yn ail ddewis.**
  Nododd y fforwm mewn 50% o'r ceisiadau lle roedd yr ysgol dewis cyntaf yn ysgol gyfrwng Cymraeg, nad oedd yr ail ddewis, lle roedd wedi ei gofnodi, yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Ar gyfer ceisiadau Meithrinfa Rhan-amser a Llawn Amser, roedd gostyngiad yn y duedd, er bod y ffigwr yn dal i fod dros 50%. Nododd y fforwm fod dewis rhieni yn berthnasol, a bod rhieni/gofalwyr yn aml yn gofyn i'r ail ddewis, sef ysgol gyfrwng Saesneg, gael ei brosesu, yn hytrach nag ystyried unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill oedd â lleoedd ar gael.

- **Gwrandawiadau apeliadau derbyn**.
  Derbyniodd y fforwm wybodaeth gynhwysfawr ynghylch nifer yr apeliadau derbyn. Roedd nifer yr apeliadau wedi cynyddu dros y bum mlynedd ddiwethaf, ar gyfer rowndiau derbyn a derbyniadau yn ystod y flwyddyn, oherwydd cynnydd yn nifer yr ysgolion oedd yn orlawn. Ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.

  Nododd y fforwm fod deddfwriaeth frys COVID-19, oedd yn caniatáu gwrandawiadau apêl 'rhithwir', wedi dod i ben o 30 Medi 2022. Roedd yn destun pryder y byddai angen i wrandawiadau apêl ddychwelyd i fod wyneb yn wyneb, gan fod lle i gredu efallai na fyddai llawer o aelodau'r panel yn dymuno cymryd rhan mewn gwrandawiadau wyneb yn wyneb mwyach. Gwirfoddolwyr yw aelodau'r panel. Roedd peidio â gorfod teithio a gallu cymryd rhan o'u cartrefi wedi bod yn fuddiol. Dymunai'r fforwm hefyd gydnabod y bu manteision i rieni/gofalwyr o gyflwyno eu hachosion o gysur eu cartrefi eu hunain. Nododd y fforwm fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal arolwg gydag awdurdodau derbyn a'r adborth bendant oedd bod rhith-apeliadau wedi bod yn effeithiol ac yn gyfleus ac y byddai'r gallu i barhau i gynnal paneli apêl yn rhithwir yn fuddiol iawn. Croesawodd y fforwm fwriad Llywodraeth Cymru i symud ymlaen â deddfwriaeth i ganiatáu rhith-apeliadau yn y dyfodol.

  Nododd y fforwm fod gwybodaeth wedi'i hychwanegu at adran 17.3 o Bolisi Derbyn drafft yr Ysgolion ar gyfer 2024-2025, o'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion, yn ymwneud â phersonau a waharddwyd rhag bod gydag apelydd mewn gwrandawiad apêl. Roedd y newid yn cael ei gynnig o ganlyniad i achlysuron yn ystod y flwyddyn ddiwethaf pan oedd rhieni wedi cynllunio i bersonau gwaharddedig gyflwyno i'r panel ar eu rhan. Ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.

- **Derbyniadau ysgol ar gyfer plant sy'n cyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr o'r Wcráin**
  Derbyniodd y fforwm wybodaeth gynhwysfawr am nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a'r canlyniadau. Ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.

- **Ceisiadau derbyn neu drosglwyddo ymlaen llaw yn ystod y flwyddyn**
  Nododd y fforwm y newid arfaethedig i adran 16.5 o'r Polisi Derbyn i Ysgolion 2024-2025 i gyflwyno gallu i'r awdurdod lleol brosesu cais yn ystod y flwyddyn oedd y tu allan i drefn gaeth y dyddiad a'r amser. Bernir bod hyn yn cael ei gyfiawnhau gan amgylchiadau penodol yr achos. Ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.

- **Polisïau derbyn i ysgolion yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (VA).**
  Nododd y fforwm fod rhai o'r polisïau yn gryno iawn. Awgrymwyd bod yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn ystyried mabwysiadu adrannau o bolisi'r awdurdod lleol bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod eu polisïau yn gynhwysfawr. Cadarnhaodd yr esgobaeth ei bod wedi adolygu'r polisi derbyn i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a ddarparwyd ar gyfer y fforwm, a bod cymorth a chyngor wedi cael eu rhoi ynghylch y ffaith fod y corff llywodraethu'n cadw'r hawl i dderbyn rhai dros eu nifer derbyn mewn perthynas â cheisiadau gan rai o'r ffydd Gatholig. Gwnaed y diwygiadau angenrheidiol, ac ni ofynnodd y fforwm am unrhyw gamau pellach.

- **Trefniadau derbyn gydag awdurdodau cyfagos**
  Nododd y fforwm y cynnig i wella eglurder y trefniadau derbyn gydag awdurdodau cyfagos.

| A oes gweithgaredd derbyn cyd-gysylltiedig yn eich awdurdod lleol?<br>Os oes pa awdurdodau derbyn yn eich ardal awdurdod lleol sy'n cymryd rhan?<br>A yw wedi bod yn llwyddiannus / fuddiol? |
|---|
| Nid oes trefniadau derbyn cyd-gysylltiedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr |

## Derbyniadau ac Apeliadau mewn perthynas ag Ysgolion

# 1. Ysgolion y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar eu cyfer

### 1.1 Cylch derbyn i ysgol gynradd (blwyddyn Derbyn) ar gyfer mis Medi 2022 – ceisiadau a dderbyniwyd ac apeliadau yn codi

| Enw’r ysgol | Nifer y derbyniadau | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** ar gyfer yr ysgol (ar amser ac yn hwyr) | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** llwyddiannus | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus | Cyfanswm dewisiadau rhieni a fodlonwyd ar gyfer yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Abercedin | 30 | 28 | 28 | 0 | - | 28 |
| Ysgol Gynradd Afon y Felin | 19 | 24 | 19 | 0 | - | 19 |
| Ysgol Gynradd Betws | 30 | 18 | 18 | 0 | - | 18 |
| Ysgol Gynradd Blaengarw | 24 | 16 | 16 | 0 | - | 16 |
| Ysgol Gynradd Bracla | 45 | 43 | 43 | 0 | - | 43 (1af)<br>2 (2il) |
| Ysgol Gynradd Bryncethin | 34<br>(dros dro 35) | 29 | 29 | 0 | - | 29 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Brynmenyn | 60 | 43 | 43 | 0 | - | 43 (1$^{af}$)<br>2 (2$^{il}$) |
| Ysgol Babanod Bryntirion | 40 | 23 | 23 | 0 | - | 23 |
| Ysgol Gynradd Caerau | 45<br>(dros dro 60) | 27 | 27 | 0 | - | 27 |
| Ysgol Gynradd Cefn Cribwr | 20 | 17 | 17 | 0 | - | 17 |
| Ysgol Babanod Cefn Glas | 66 | 51 | 51 | 0 | - | 51 |
| Ysgol Gynradd Coety | 60 | 71 | 59 | 2 | 0 | 59 (1$^{af}$)<br>1 (3$^{rd}$) |
| Ysgol Gynradd Corneli | 46 | 26 | 26 | 0 | - | 26 (1$^{af}$)<br>1 (2$^{il}$) |
| Ysgol Gynradd Llangrallo | 19 | 21 | 19 | 1 | 0 | 19 |
| Ysgol Gynradd Croesty | 30 | 30 | 30 | 0 | - | 30 |
| Ysgol Gynradd Cwmfelin | 30 | 30 | 30 | 0 | - | 30 |
| Ysgol Gynradd Ffaldau | 30 | 18 | 18 | 0 | - | 18 |
| Ysgol Gynradd Garth | 30 | 28 | 28 | 0 | - | 28 |
| Ysgol Gynradd Llidiart | 60 | 67 | 60 | 1 | 0 | 60 |
| Ysgol Gynradd Llangynwyd | 11<br>(dros dro14) | 9 | 9 | 0 | - | 9 |
| Ysgol Gynradd Maes-yr-Haul | 75 | 51 | 51 | 0 | - | 51 |
| Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig | 60 | 52 | 52 | 0 | - | 52 |
| Ysgol Gynradd Nantyffyllon | 40 | 22 | 22 | 0 | - | 22 |
| Ysgol Gynradd Nant-y-moel | 30 | 19 | 19 | 0 | - | 19 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Newton | 34 | 17 | 17 | 0 | - | 17 |
| Ysgol Gynradd Notais | 60 | 32 | 32 | 0 | - | 32 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gynradd Cwm Ogwr | 53 | 28 | 28 | 0 | - | 28 |
| Ysgol Gynradd yr Hen Gastell | 60 | 41 | 41 | 0 | - | 41 (1af)<br>1 (3il) |
| Ysgol Gynradd Pencoed | 72 | 74 | 72 | 0 | - | 72 |
| Ysgol Gynradd Pen-y-bont | 45 | 49 | 43 | 0 | - | 43 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai | 30 | 33 | 29 | 0 | - | 29 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gynradd y Pîl | 30 | 30 | 30 | 0 | - | 30 |
| Ysgol Gynradd Plasnewydd | 45 | 20 | 20 | 0 | - | 20 |
| Ysgol Gynradd Porthcawl | 25<br>(dros dro 28) | 21 | 21 | 0 | - | 21 |
| Ysgol Gynradd Tondu | 42 | 22 | 22 | 0 | - | 22 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gynradd Trelales | 30 | 22 | 22 | 0 | - | 22 |
| Ysgol Gynradd Tremain | 65 | 59 | 59 | 0 | - | 59 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gynradd Tynyrheol | 10 | 5 | 5 | 0 | - | 5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd West Park | 55 | 59 | 55 | 1 | 0 | 55 |
| Ysgol Sant Cynwyd | 45 | 41 | 41 | 0 | - | 41 |
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 54 | 51 | 51 | 0 | - | 51 (1af)<br>2 (3rd) |
| Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y | 30 | 22 | 22 | 0 | - | 22 |
| Ysgol y Ferch o'r Sgêr | 33 | 19 | 19 | 0 | - | 19 |
| **Cyfanswm** | **1752<br>(temp. 1774)** | **1408** | **1366** | **5** | **0** | **1366 (1af)<br>10 (2il)<br>5 (3rd)** |

Nid yw cyfanswm nifer y dewisiadau a fodlonwyd yn gyfystyr â nifer y ceisiadau a ddaeth i law, gan nad oedd rhai ymgeiswyr na chawsant gynnig yr ysgol a oedd yn ddewis cyntaf iddynt, wedi mynegi ail neu drydydd dewis, ac ni wnaethant gais ar ôl hynny am le mewn unrhyw ysgol arall y mae'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar ei chyfer.

**1.2 Cylch derbyn i ysgol iau (Blwyddyn 3) ar gyfer mis Medi 2022 - ceisiadau a dderbyniwyd ac apeliadau yn codi**

| Enw'r ysgol | Nifer y derbyniadau | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** ar gyfer yr ysgol (ar amser ac yn hwyr) | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** llwyddiannus | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus | Cyfanswm dewisiadau rhieni a fodlonwyd ar gyfer yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Iau Llangewydd | 90 | 76 | 76 | 0 | - | 76 (1af) |

**1.3 Cylch derbyn ysgol gyfun (Blwyddyn 7) ar gyfer mis Medi 2022 - ceisiadau a dderbyniwyd ac apeliadau yn codi**

| Enw'r ysgol | Nifer y derbyniadau | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** ar gyfer yr ysgol (ar amser ac yn hwyr) | Nifer y ceisiadau **dewis 1af** llwyddiannus | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus | Cyfanswm dewisiadau rhieni a fodlonwyd ar gyfer yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Brynteg | 333 | 315 | 315 | 0 | - | 315 (1af)<br>4 (2il) |
| Ysgol Gyfun Bryntirion | 210 | 247 | 210 | 1 | 0 | 210 |
| Coleg Cymunedol Y Dderwen | 276 | 252 | 252 | 0 | - | 252 (1af)<br>2 (2il) |
| Ysgol Gyfun Cynffig | 180 | 154 | 154 | 0 | - | 154 |
| Ysgol Maesteg | 228 | 205 | 205 | 0 | - | 205 |
| Ysgol Gyfun Pencoed | 214 | 178 | 178 | 0 | - | 178 (1af)<br>3 (2il) |
| Ysgol Gyfun Porthcawl | 246 | 198 | 198 | 0 | - | 198 (1af)<br>1 (2il) |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | 165 | 148 | 148 | 0 | - | 148 |
| **Totals** | **1852** | **1697** | **1660** | **1** | **0** | **1660 (1af)**<br>**10 (2il)** |

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae'n hysbys bod cyfran o'r rhieni/gofalwyr a wnaeth gais am le i'w plentyn yn Ysgol Gyfun Bryntirion hefyd wedi gwneud cais i Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath.

## 2. Ysgolion nad yw'r awdurdod lleol yn awdurdod derbyn ar eu cyfer

### 2.1 Cylch derbyn i ysgol gynradd (blwyddyn Derbyn) ar gyfer mis Medi 2022 – ceisiadau a dderbyniwyd ac apeliadau yn codi

| Enw’r ysgol | Nifer y derbyniadau | Nifer y ceisiadau ar gyfer yr ysgol (ar amser ac yn hwyr) | Nifer y ceisiadau llwyddiannus | Niferiad | Nifer yr apeliadau llwyddiannus | Cyfanswm dewisiadau rhieni a fodlonwyd ar gyfer yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru | 30 | 16 | 16 | 0 | - | 16 |
| Ysgol Gynradd y Santes Fair | 30 | 30 | 30 | 0 | - | 30 |
| Ysgol Gynradd y Santes Fair a Sant Padrig | 25 | 21 | 21 | 0 | - | 21 |
| Ysgol Gynradd Sant Robert | 22 | 19 | 19 | 0 | - | 19 |
| **Cyfanswm** | **107** | **86** | **86** | **0** | **-** | **86** |

### 2.2 Cylch derbyn ysgol gyfun (Blwyddyn 7) ar gyfer mis Medi 2022 - ceisiadau a dderbyniwyd ac apeliadau yn codi

| Enw’r ysgol | Nifer y derbyniadau | Nifer y ceisiadau ar gyfer yr ysgol (ar amser ac yn hwyr) | Nifer y ceisiadau llwyddiannus | Nifer yr apeliadau | Nifer yr apeliadau llwyddiannus | Cyfanswm dewisiadau rhieni a fodlonwyd ar gyfer yr ysgol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath | 131 | 183 | 135 | 16 | 8 | 135 |

Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae'n hysbys bod cyfran o'r rhieni/gofalwyr a wnaeth gais am le i'w plentyn yn yr ysgol hefyd wedi gwneud cais i Ysgol Gyfun Bryntirion.

| **Pa ddulliau y mae'r fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau y mae wedi'u gwneud?** |
| --- |
| Rhannwyd cyngor neu benderfyniadau â rhanddeiliaid perthnasol drwy fecanweithiau cyfathrebu arferol yr awdurdod lleol.<br><br>Mae cofnodion Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol. |

**Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y fforwm ar wefan yr awdurdod lleol:**

Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y fforwm ar dudalen Fforwm Derbyn i Ysgolion gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

**Darparwch y ddolen berthnasol:**

**https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-ac-addysg/derbyniadau-i-ysgolion/fforwm-derbyn-pen-y-bont-ar-ogwr/**

**Llofnod:** *Emma Giles* **(Ysgrifennydd y Fforwm)**

**Dyddiad: 23/11/2023**

**Dylech ddychwelyd yr adroddiad, wedi ei gwblhau, erbyn 30 Tachwedd *2023***